Adran Gwaith a Phensiynau

# Cefnogi cofrestru awtomatig

## Ymateb y Llywodraeth i'r cais am dystiolaeth o effaith y terfyn ar gyfraniadau blynyddol a'r cyfyngiadau trosglwyddo ar NEST

Gorffennaf 2013

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau** | 3 |
| **Crynodeb gweithredol** | 5 |

## Rhagair gan y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

Mae proses o gofrestru'n awtomatig ar gyfer pensiynau gweithle yn cynrychioli newid graddol yn y dirwedd pensiynau. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cwmnïau mwyaf Prydain wedi cofrestru tua 670,000 o weithwyr yn awtomatig i gynilo mewn pensiwn am y tro cyntaf. Gan adeiladu ar ymgyrch hysbysebu lwyddiannus iawn gan y Llywodraeth a chysylltiadau effeithiol mewn gweithleoedd, mae nifer y rhai sydd wedi eithrio wedi bod yn llawer is na'r disgwyl. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen ar y trywydd cywir i sicrhau bod rhwng chwech a naw miliwn o bobl yn cynilo o'r newydd neu'n cynilo mwy mewn pensiwn gweithle.

Mae NEST – yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol – yn rhan o'r dirwedd cofrestru awtomatig. Sefydlwyd NEST gan y Llywodraeth i sicrhau bod pob cyflogwr yn gallu manteisio ar opsiwn cost isel o safon ar gyfer darpariaeth pensiwn gweithle. Er bod y farchnad bob amser wedi darparu ar gyfer cwmnïau mwy ac enillwyr uwch, crëwyd NEST yn benodol i sicrhau bod cwmnïau llai ac enillwyr isel i ganolig hefyd yn gallu manteisio ar ddarpariaeth pensiwn o safon.

Er mwyn sicrhau bod NEST yn canolbwyntio ar y 'farchnad darged' hon, deddfodd y Llywodraeth flaenorol i gyfyngu ar NEST mewn dwy ffordd benodol – terfyn ar gyfraniadau blynyddol, sef £4,500 y flwyddyn ar hyn o bryd, a chyfyngiadau ar drosglwyddo i mewn ac allan o NEST, sy'n atal cynlluniau presennol rhag cael eu trosglwyddo mewn swmp ac yn cyfyngu ar drosglwyddiadau gan aelodau cynlluniau unigol.

Yn ystod haf 2010, comisiynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau adolygiad annibynnol – Making Automatic Enrolment Work – i ystyried a oedd y fframwaith ar gyfer cofrestru awtomatig yn addas at y diben. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y saernïaeth sylfaenol, yn cynnwys NEST, yn briodol, ond y dylid dileu'r cyfyngiadau ar NEST yn 2017. Yn fwy diweddar, argymhellodd y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau yn 2012 y dylid dileu'r cyfyngiadau ar unwaith, gan leisio pryder ei bod yn bosibl na allai rhai cwmnïau ddefnyddio NEST, gan arwain at anfantais i ddefnyddwyr.

Mewn ymateb, cyhoeddodd y Llywodraeth Gais am Dystiolaeth ar ddiwedd 2012, i geisio safbwyntiau ar ddyfodol y cyfyngiadau ar NEST. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law ac ymateb y Llywodraeth.

Cred y Llywodraeth y bu'r gofyniad ar NEST i ganolbwyntio ar y farchnad darged hon yn llwyddiannus iawn. Mae gan NEST dros 250,000 o aelodau bellach, cynnydd o gymharu â thua 130,000 ym mis Ebrill. Fodd bynnag, gyda niferoedd mawr o gwmnïau canolig a llai yn dechrau cofrestru eu gweithwyr dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae angen i ni ganolbwyntio fwy nag erioed ar helpu'r cwmnïau llai hyn i baratoi ar gyfer cofrestru eu gweithwyr. Bydd NEST, gyda'i ffocws arbennig ar y gweithwyr hynny ag enillion is, yn rhan allweddol o'r ateb hwn.


Mae NEST wedi meddwl yn ddwys am ei gynllun; mae wedi anelu ei ymchwil, ei gysylltiadau, ei ddefnydd o iaith, ei fuddsoddiadau a'i strategaethau dadgronni at ei farchnad darged. Mae'n gweithio, ac mae angen i hyn barhau. Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nod o sicrhau bod pobl yn cynilo, rydym wedi penderfynu bod yn rhaid i NEST barhau i ganolbwyntio ar ei grŵp targed heb unrhyw ymyriadau.

Datgelodd yr ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth ganfyddiad bod y cyfyngiadau a roddwyd ar NEST yn ei atal rhag gwasanaethu'r enillwyr isel i ganolig a'r cyflogwyr bach y'i bwriadwyd ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'n bleser gennyf nodi bod hynny ymhell o'r gwir. Gyda chyfraniadau gorfodol o gyn lleied â dau y cant ar fand enillion, gydag o leiaf un y cant gan gwmnïau, ni fydd unrhyw gyflogwr sy'n cyfrannu ar y lefel hon, na'r wyth y cant llawn ar y band, yn rhagori ar y terfyn ar gyfraniadau blynyddol.

Fodd bynnag, mae angen i ni edrych i'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod NEST yn parhau i ddylanwadu yn y farchnad, ac yn parhau i helpu i godi safonau ac arfer gorau. Bydd yr isafswm cyfraniad hefyd yn codi dros amser. Bydd yn cynyddu i gyfraniad cyfunol o 5% ym mis Hydref 2017 ac 8% ym mis Hydref 2018. Felly, yn unol ag argymhellion yr adolygiad annibynnol Making Automatic Enrolment Work, rwy'n bwriadu deddfu cyn gynted â phosibl i ddileu'r cyfyngiad ar gyfraniadau o 2017 er mwyn sicrhau, yn 2017, pan fydd cyflogwyr presennol wedi cofrestru eu gweithwyr, y gall cyflogwyr fod yn sicr y bydd NEST yn gynllun priodol iddynt o hyd.

O ran trosglwyddiadau unigol, rydym yn cytuno y dylai NEST fod yn rhan o'r ateb trosglwyddo awtomatig rydym yn deddfu ar ei gyfer ar hyn o bryd. Felly, byddwn yn dileu'r cyfyngiadau ar drosglwyddiadau unigol i mewn ac allan o NEST i gyd-fynd â dechrau'r drefn 'cronfa yn dilyn aelod'. Bydd y gwaharddiad ar drosglwyddiadau swmp yn parhau hyd at ddiwedd y cyfnod cyflwyno ar gyfer cofrestru awtomatig ym mis Ebrill 2017, pan gaiff ei ddileu.

Credwn fod y broses o greu NEST wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant cynnar cofrestru awtomatig. Mae NEST wedi canolbwyntio ar ei farchnad darged ac mae wedi arloesi er mwyn gwasanaethu anghenion y rheini yn y farchnad honno. Wrth i gofrestru awtomatig ddatblygu i gwmpasu cwmnïau canolig a llai, rydym am i NEST barhau â'i waith ardderchog, tra'n nodi nawr y bydd NEST mewn sefyllfa debyg i ddarparwyr eraill yn y farchnad bensiynau ehangach ar ôl 2017.



**Steve Webb AS**
Y Gweinidog Gwladol dros Bensiynau

# Crynodeb gweithredol

Dechreuodd cofrestru awtomatig ym mis Gorffennaf 2012, gyda'r cyflogwyr mwyaf. Bydd yn effeithio ar 1.2 miliwn o gyflogwyr – y mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn gyflogwyr bach a chanolig (BBaCh[1]) – a bydd tua 11 miliwn o bobl yn gymwys, gyda chwech i naw miliwn o bobl yn cynilo o'r newydd neu'n cynilo mwy[2]. Sefydlwyd NEST i ategu cofrestru awtomatig drwy ddarparu cynllun pensiwn gweithle i unrhyw gyflogwr a oedd am ei ddefnyddio i gyflawni ei ddyletswyddau cofrestru awtomatig. Fe'i sefydlwyd i ganolbwyntio ar farchnad darged o gyflogwyr llai ac enillwyr isel i ganolig, yr oedd y diwydiant pensiynau presennol wedi cael mwy o drafferth i'w gwasanaethu. Er mwyn sicrhau bod NEST yn parhau i ganolbwyntio ar y farchnad darged hon, pennwyd dau gyfyngiad ar y cynllun – cap ar gyfraniadau blynyddol a chyfyngiadau ar drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r cynllun. Mesur dros dro oedd y cyfyngiadau hyn ac mae gofyniad statudol eisoes i adolygu eu heffaith yn 2017, unwaith y bydd y broses o gyflwyno cofrestru awtomatig wedi'i chwblhau.

Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau Gais am Dystiolaeth ym mis Tachwedd 2012. Gwahoddodd safbwyntiau a thystiolaeth sy'n berthnasol i bu'n a oedd y terfyn ar gyfraniadau blynyddol a'r cyfyngiadau ar drosglwyddiadau yn gweithio fel y'u bwriadwyd, neu bu'n a oedd achos i'w newid. Mae'r ymateb hwn yn nodi'r safbwyntiau, y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r Cais am Dystiolaeth a chamau gweithredu arfaethedig y Llywodraeth.

1 Cyflogwyr bach a chanolig, wedi'u diffinio fel cyflogwr â llai na 250 o gyflogeion.
2 Workplace pension reform: digest of key analysis, Gorffennaf 2012. DWP.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/196615/wpr_digest_0712.pdf.pdf

## Cyflwyniad

Mae pennod 1 yn nodi cefndir polisi cofrestru awtomatig a NEST. Mae'n disgrifio'r her anferth o gyflwyno cofrestru awtomatig, cyflwr y farchnad ar hyn o bryd a'r problemau cynhwysedd a allai godi. Mae'n egluro rôl NEST a pha mor bwysig ydyw bod NEST yn parhau i ganolbwyntio ar ei farchnad darged yn ystod y broses o gyflwyno cofrestru awtomatig.

## Cyfyngiad ar gyfraniadau blynyddol

Mae pennod 2 yn edrych ar effaith y cyfyngiad ar gyfraniadau blynyddol, beth y bwriadwyd iddo ei wneud a sut y gallai effeithio ar fuddiannau defnyddwyr a dewis cyflogwyr. Dangosodd yr ymatebion fod canfyddiad ymysg rhai y gallai'r cyfyngiad ar gyfraniadau blynyddol achosi problemau i ddefnyddwyr a chyflogwyr. Fodd bynnag, mae'r bennod yn nodi y cynlluniwyd y cyfyngiad ar gyfraniadau i gynnwys hyblygrwydd, gan alluogi defnyddwyr – y bydd y mwyafrif ohonynt ar enillion isel i gymedrol – i wneud cyfraniadau sylweddol ar ben yr isafswm cyfreithiol. Mae'n ystyried a ellir defnyddio NEST fel cynllun unigol gan BBaChau a'r dystiolaeth yw bod y rhan fwyaf o BBaChau am gyfrannu at yr isafswm yn unig, sy'n golygu y gallant yn bendant ddefnyddio NEST fel ateb cynllun unigol a bydd mwy o gyfle i'w holl weithwyr wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol.

## Cyfyngiadau trosglwyddo

Mae pennod 3 yn ystyried cyfyngiadau ar drosglwyddiadau unigol a swmp, beth oedd y pwrpas gwreiddiol a'r effaith ar allu defnyddwyr i gydgrynhoi'r pensiwn y maent wedi'i gynilo. Dangosodd y dystiolaeth gonsensws eang y dylid dileu'r cyfyngiadau ar drosglwyddiadau unigol i alluogi NEST i gymryd rhan mewn unrhyw ateb trosglwyddo awtomatig. Mae hefyd yn edrych ar bu'n a yw trosglwyddiadau swmp yn flaenoriaeth ar gyfer BBaChau sy'n awyddus i ddefnyddio NEST. Mae'n nodi bod y cyfyngiadau'n helpu i roi sefydlogrwydd yn y farchnad a sicrhau symlrwydd gweinyddol ar gyfer NEST yn ystod y cyfnod o gyflwyno'r broses cofrestru awtomatig.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae pennod 4 yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r Cais am Dystiolaeth a'r camau nesaf. Rhesymeg y Llywodraeth yw bod NEST yn gwneud yn dda, mae'r cyfyngiadau'n gweithio i sicrhau bod NEST yn canolbwyntio ar ei farchnad darged ac nid oes unrhyw dystiolaeth glir bod y cyfyngiadau wedi peri unrhyw anawsterau hyd yma. Fodd bynnag, amlygwyd bod rhwystr canfyddedig i fynediad a achosir gan y cyfyngiadau. Felly, daw i'r casgliad y dylai'r Adran a NEST roi neges glir ar effaith y cyfyngiadau ac y caiff y cyfyngiadau hyn eu dileu pan fydd cyfraniadau'n codi uwchlaw dau y cant, y pwynt pan geir risg uwch o lai o hyblygrwydd i aelodau NEST wneud cyfraniadau ychwanegol sylweddol.

## Crynodeb o'r cynigion allweddol

Mae'r cyfyngiadau'n gweithio i sicrhau bod NEST yn canolbwyntio ar enillwyr isel i gymedrol a chyflogwyr llai, a sicrhau bod y cyflogwyr a'r gweithwyr hynny yn cymryd rhan yn y cynllun yn ystod y broses gyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau y caiff cofrestru awtomatig ei weithredu'n llwyddiannus a nodau tymor hwy y diwygiadau. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth am roi sicrwydd i gyflogwyr na chaiff y cyfyngiadau unrhyw effaith arnynt hwy na'u gweithwyr yn y tymor hwy os bydd eu hamgylchiadau'n newid. Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu:

- deddfu i ddileu'r cyfyngiadau ar drosglwyddiadau unigol i gyd-fynd â lansiad trosglwyddiadau awtomatig
- deddfu cyn gynted â phosibl i ddileu'r cyfyngiadau eraill o fis Ebrill 2017

Bydd yr Adran hefyd yn gweithio'n agos gyda NEST, y diwydiant pensiynau a grwpiau cyflogwyr i reoli'r canfyddiad bod y cyfyngiadau'n rhwystr i ddewis cyflogwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod cyflogwyr yn glir am yr effaith wirioneddol a gaiff y cyfyngiad ar gyfraniadau blynyddol a'r cyfyngiadau trosglwyddo arnynt hwy a'u gweithwyr. Bydd yr Adran hefyd yn gweithio gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau i ystyried sut i wella'r llythyrau galwad i weithredu a anfonir at gyflogwyr cyn eu dyddiad gweithredu.

ISBN 978-1-78153-593-6

(h) Hawlfraint y Goron 2013

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Gorffennaf 2013

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**